

Ynglŷn â'r Prosiect Hwn

Mae Prosiect Teithio Llesol a Mannau Cyhoeddus Sandfields yn gynllun gwella pwysig i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i bobl gerdded, olwyno a beicio (a elwir yn deithio llesol) o amgylch Sandfields a glan môr Aberafan. Hyd y cam hwn yw 4.7km, fel y dangosir ar y map isod.

Bydd y gwelliannau hyn yn creu llwybr cylchredol mwy hygyrch a deniadol sy'n cysylltu Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar ffordd ddeheuol Ffordd Afan â chyrchfannau allweddol ar hyd glan y môr.

Y nod yw gwneud teithiau byr pob dydd fel mynd i'r ysgol, y siopau, neu lan y môr yn haws heb fod angen car. Mae hyn yn golygu dewisiadau teithio iachach, strydoedd mwy diogel a chymuned sy'n fwy hygyrch i bawb.

Mae'r prosiect teithio llesol hwn yn cyd-fynd ag ymdrechion adfywio ehangach i wella mannau cyhoeddus ar lan y môr ac yn y gymuned leol gan greu lle glanach, gwyrddach a mwy bywiog i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi Uwchgynllun Glan Môr Aberafan drwy sicrhau bod gwelliannau ar draws yr ardal yn cydweithio i gyflawni nodau adfywio tymor hir.


Crynodeb o'ch adborth blaenorol:

- ✓ Cysylltedd parhaus gyda llwybr cysylltu Heol Pontnewydd/Pont Trecelyn.
- ✓ Mwy o amwynderau, gan gynnwys cawodydd a chyfleusterau golchi cŵn.
- ✓ Croesfannau gwell i gerddwyr ar hyd Ffordd y Dywysoges Margaret.
- ✓ Croesfan newydd ar Heol Victoria, sy'n gwasanaethu Ysgol Gynradd Tywyn.
- ✓ Cais am lwybr beicio amgen ger y ffordd i leihau gwrthdaro rhwng beicwyr a cherddwyr ar y promenâd.
- ✓ Ansawdd yr arwyneb: defnyddio deunyddiau gradd morol.
- ✓ Isadeiledd gwyrdd i ychwanegu diddordeb gweledol a bioamrywiaeth.
- ✓ Cilfachau parcio ychwanegol cyffredinol ac i'r anabl ger caffi Memo Beach a chyferbyn â The Four Winds/y Ganolfan Hamdden.
- ✓ Gwella tirlunio, gwyrddu a chreu lleoedd ar y pen gorllewinol ger caffi Memo Beach i ddiffinio'r gofod yn well.
- ✓ Ymdrech gyffredinol i godi safonau amwynderau ac ychwanegu seddi/cyfleusterau picnic i annog defnydd cymdeithasol ac amser a dreulir yno.
- ✓ Mynediad gwell at gludiant cyhoeddus ar lan y môr.

Map o Faint y Cynllun

Allwedd map

- Graddfa'r cynllun arfaethedig
- Ardal gwella mannau cyhoeddus
- Adran Cynllun Teithio Egniol (Rhif y Daflen)



Mynegwch eich Barn- Mae'r Arolwg Bellach yn Fyw

Rydym bellach yn ceisio'ch adborth i helpu i fireinio a chwblhau'r cynigion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cwblhewch yr arolwg ymgysylltu gan ddefnyddio'r côd QR:



Am ragor o wybodaeth, ewch:

www.npt.gov.uk/activetravel

neu cysylltwch â ni yn:

activetravel@npt.gov.uk